GALWAD

ADRODD STORI TRWY DY ARDD

GWEITHGAREDD I DDYLUNIO GOFOD TYFU BWYD CYNALIADWY AR RADDFA FACH WEDI'I UWCHGYLCHU

Eco-Schools
Eco-Sgolion

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

Gwybodaeth Gefndir

Mae tyfu mwy o'n bwyd ein hunain yn rhywbeth y gallwn ni i gyd ymwneud ag ef, ni waeth ble rydym yn byw neu faint o le sydd gennym. Mae bwyd yn dod yn fwyfwy drud oherwydd pwysau o amgylch y Byd a newidiadau yn yr hinsawdd. Yn anhygoel, rydym hefyd yn gwastraffu mwy o fwyd nag erioed yn fyd-eang ac yn y DU. Mae adroddiad diweddar gan WWF wedi cyfrifo ein bod yn gwastraffu tua 40% o'r bwyd sy'n cael ei gynhyrchu ac mae llawer o'r gwastraff hwn yn dod cyn i'r cynnyrch adael y fferm hyd yn oed.

Mae tyfu ein bwyd ein hunain yn rhoi ymdeimlad gwych o gyflawniad a hefyd yn ein helpu i werthfawrogi'r amser a'r egni sy'n mynd ar gynhyrchu bwyd, gan gynyddu yn ei dro sut rydym yn ei werthfawrogi. Mae hefyd yn ein hannog i fynd allan i'r awyr agored, yn ogystal â'n galluogi i reoli'n union beth sy'n cael ei ychwanegu at ein bwyd, fel y gallwn leihau gwrteithiau cemegol a phlaladdwyr.

Cyfunwch hynny ag economi gylchol ac uwchgylchu pethau a fyddai fel arall yn cael eu gwastraffu ac rydym yn dod yn ddinasyddion gwirioneddol gynaliadwy. Gellir defnyddio pob math o gynwysyddion i blannu ynddynt, o hen welingtons i ddroriau wedi torri neu hen dybiau bath!

Gallwn addasu'r hyn a ddefnyddiwn i'r gofod sydd gennym fel y gallwn dyfu ar silffoedd ffenestri, i fyny ochrau adeiladau, neu ar doeon. Gall hen baletau wneud gardd fertigol ardderchog ac mae llawer o ddinasoedd bellach yn dylunio adeiladau gyda gerddi fertigol fel nodwedd allweddol.

Mae gwastraff bwyd yn cyfrif am 10% o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr.

A oeddech chi'n gwybod, ar gyfartaledd, bod planhigion, pryfed ac adar hyd at 50% yn fwy niferus ar ffermydd organig?

Mae priddoedd yn gartref i chwarter o rywogaethau'r Ddaear ac yn chwarae rhan hanfodol wrth frwydro yn erbyn newid hinsawdd.

Os oes angen rhywfaint o ysbrydoliaeth arnoch, edrychwch ar Urban-Vertical CIC, busnes bach gwych yng Nghaerdydd, sydd wedi sefydlu fferm gymunedol ficrowyrdd tyfu'n fertigol. Gallwch hefyd gael rhai syniadau ar wahanol ddyluniadau yn 5 Designs for Growing Food Vertically - The Permaculture Research Institute (permaculturenews.org)

Mae tyfu unrhyw beth, gan gynnwys bwyd, yn wych ar gyfer bioamrywiaeth, ac yn helpu i gefnogi bywyd gwyllt lleol ac yn helpu i lanhau'r aer yr ydym yn ei anadlu.

Gweithgaredd

Wedi'i ysbrydoli gan Eco-Sgolion yn yr Alban, mae'r gweithgaredd hwn yn ymgorffori adrodd straeon a dylunio gardd 'boced' yn un gweithgaredd hwyliog.

Hoffem eich herio i ddylunio gardd fwyd fach sy'n adrodd stori o'r dyfodol! Chi sydd i benderfynu sut i adrodd y stori honno - gallai fod trwy eitemau yn yr ardd neu drwy ddelweddau, geiriau neu synau sydd i'w cael yn yr ardd. Gallai hyd yn oed fod trwy stori sy'n cael ei hadrodd wrth ymweld â'r ardd.

Dylech geisio defnyddio eitemau wedi'u huwchgylchu yn unig yn eich dyluniad ac mae angen i'ch gardd fod yn blaned bositif – felly dim ond compost heb fawn ac arferion tyfu organig.

Edrychwch ar Keep Scotland Beautiful's Pocket Garden Showcase i gael ychydig o ysbrydoliaeth ar gyfer sut i greu gardd fach sy'n llawn dop o blanhigion, eitemau wedi'u huwchgylchu ac yn adrodd stori.

Mae gan ardd boced ôl troed mwyaf o 1 metr sgwâr ond gall ymestyn i fyny cymaint ag y dymunwch. Fodd bynnag, nid oes rhaid iddo fod yn sgwâr, gallai fod yn hir ac yn denau, cyn belled nad yw'r ôl troed yn fwy nag $1m^2$.

Mae rhai pethau i feddwl amdanynt yn cynnwys:

- Beth fyddwch chi'n ei blannu sy'n fwytadwy ac yn hawdd gofalu amdano? Cofiwch feddwl pryd y bydd yr holl blanhigion yn blodeuo neu angen eu cynaeafu ac a ydynt yn tyfu'n dda yn eich hinsawdd. Gallwch gael rhywfaint o ysbrydoliaeth yn Growing - Growing (dandelion.scot)

- Pa stori fydd eich gardd yn ei hadrodd – ai llun o'r dyfodol neu stori gan rywun sydd wedi ymweld â'r dyfodol fydd hi? Efallai y bydd yn ymwneud â bwyd y dyfodol gyda rhai cnydau newydd cyffrous! Byddwch mor greadigol ag y dymunwch.

- Ble byddwch chi'n gosod eich gardd a pha eitemau allech chi eu hachub i greu eich dyluniad? A oes unrhyw un a allai eich helpu i ddod o hyd i ddeunyddiau?

Byddem wrth ein bodd yn gweld eich dyluniadau unwaith y byddant wedi'u cwblhau, felly anfonwch nhw ar e-bost i eco-schools@keepwalestidy.cymru Byddem hefyd wrth ein bodd yn gweld a fydd eich dyluniad yn cael ei greu yn ardd fyw yn ddiweddarach yn y flwyddyn

Myfyrio

Mae gan fwyd y potensial i ddatrys rhai o'r heriau amgylcheddol mwyaf sy'n wynebu ein planed ond mae angen i ni ailfeddwl sut rydym yn tyfu, masnachu a defnyddio ein bwyd fel ein bod yn rhoi yn ôl i natur.

Beth arall allwn ni ei wneud o fewn ein hysgolion a'n cartrefi i drawsnewid bwyd o rywbeth sy'n achosi chwarter yr holl nwyon tŷ gwydr chwarter allyriadau nwyon tŷ gwydr y byd (ourworldindata.org) i rywbeth sy'n helpu i ddatrys yr argyfwng byd natur ac yn creu'r dyfodol yr ydym am fyw ynddo?

Pan fyddwch chi'n cerdded trwy'ch cymuned leol, edrychwch i weld a allwch chi weld unrhyw leoliadau a allai elwa o ardd boced. Efallai y gallech chi rannu eich dyluniadau neu syniadau ag aelodau o'r gymuned fel bod gennych chi lawer o bocedi o fwyd yn lleol.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Dibenion	- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd. - Cyfranwyr mentrus, creadigol
MDPh a datganiadau Beth sy'n Bwysig	**Celfyddydau Mynegiannol** - Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg **Y Dyniaethau** - Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesol. **Mathemateg a Rhifedd** - Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n cynnwys siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomenau yn y byd ffisegol.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn o bethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Nodau Byd-eang

Nod 15: Bywyd ar y tir

Nod 12: Defnydd a Chynhyrchu Cyfrifol

Nod 11: Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy

GALWAD

UNBOXED
CREATIVITY IN THE UK

Cymru Greadigol
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD gan Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB
33-35 Cathederal Road, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767
keepwalestidy.cymru
info@keepwalestidy.cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Eco-Schools
Eco-Sgolion

cadwch keep
gymru'n wales
cadus tidy